

CVSC

Cymorth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy

# Adroddiad Effaith

## 2021 - 2022

www.cvsc.org.uk

/conwyvol

/conwyvol

/conwyvolunteering

# Cynnwys


Rhagair y Cadeirydd a'r Prif Swyddog.........3

Ymgysylltu a Dylanwadu................................4

Rhwydwaith Iechyd a Lles..............................5

Car y Llan........................................................5

Rhaglen Trawsnewid Gwasanaeth Cymunedol........................................................6

Hwb Cefnogaeth Cymunedol.......................7

Llywodraethu Da............................................9

Cyllid Cynaliadwy.........................................10

Gwirfoddoli.....................................................11

Crynodeb Ariannol 2020/2021..................12


Mae CGGC yn sefydliad sy'n bartner i Gefnogi Trydydd Sector Cymru (CTSC) sy'n rhwydwaith o sefydliadau cymorth ar gyfer y trydydd sector ar draws Cymru. Mae CTSC yn cynnwys 19 o Gynghorau Gwirfoddol Sirol lleol (CGS) a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.


Cymorth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy
7 Ffordd Rhiw, Bae Colwyn, Conwy, LL29 7TG
01492 534091
mail@cvsc.org.uk



Elusen gofrestredig 1151397
Cwmni Cyfyngedig trwy Warant 3867751
Wedi'i gofrestru yng Nghymru

# Rhagair
## y Cadeirydd a'r Prif Swyddog

Os mai 2020 oedd blwyddyn y cyfnod clo, roedd yr hyn a ddilynodd yn cynnig cryn dipyn o ddewisiadau! Mewn neu Allan? Cyfyng-gyngor yr 'ydyn ni' neu 'ydyn ni ddim'! Yn CGGC roedden ni wedi croesawu'r cyfarwyddyd gweithio o gartref ac wedi buddsoddi yn ein systemau a'n staff i sicrhau bod ein gwasanaeth yn mynd yn ei flaen yn ddi-dor. Fe weithiodd yn dda, ac felly gwnaed penderfyniadau i barhau i weithio gartref.

Bu'n flwyddyn brysur arall eto. Croesawyd dau aelod newydd o staff i'n tîm ni ac roedd y mentrau newydd yn cynnwys yr Hwb Cefnogaeth Gymunedol, y Fforwm Banciau Bwyd, lansio grantiau busnes gan Gronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog, a darparu grantiau bychain ar ran Cronfa Partneriaeth Rheilffordd Gymunedol Dyffryn Conwy ac Arfordir Gogledd Orllewin Cymru.

Cawsom gyfnod byr o amser yn yr hydref lle'r oeddem yn gallu ymgysylltu unwaith yn rhagor, ac roedd croeso mawr i hyn. Fodd bynnag, oherwydd y cynnydd yn nifer yr achosion o Covid, roedd hyn braidd yn fyrhoedlog. Yn ystod y cyfnod hwn, fe wnaethom sicrhau bod gwybodaeth gyfredol, ffeithiol ac ymarferol ar gael yn hwylus am weithredu'n ddiogel, a lansiwyd cynllun adfer Covid gennym hefyd i gynorthwyo grwpiau gwirfoddol gyda'r gost ychwanegol o weithredu mesurau diogelwch.

Unwaith eto, er ei bod yn flwyddyn o ansicrwydd i lawer, rydym yn falch, fel bob amser, bod cefnogaeth CGGC i wirfoddolwyr a sefydliadau cymunedol yn sicrwydd drwy'r cyfan!

*Mary & Wendy*





# CVSC

# Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Yn CGGC rydym yn gweithio gyda dinasyddion, gwirfoddolwyr a grwpiau Trydydd Sector i nodi a mynd i'r afael â'r hyn sy'n bwysig iddynt . Trwy hyn, mae ein gweithgareddau craidd yn parhau i fod yn berthnasol er mwyn cryfhau gweithgarwch y Trydydd Sector a Gwirfoddoli drwy ganolbwyntio ar bedair piler: Ariannu Cynaliadwy; Llywodraethu Da; Gwirfoddoli ac Ymgysylltu a Dylanwadu.

| | |
|---|---|
| Aelodaeth | 172 |
| Nifer y digwyddiadau a gynhaliwyd | 37 |
| Cyfranogwyr digwyddiadau partneriaeth | 246 |
| Cyfranogwyr hyfforddiant digidol | 97 |

# Ymgysylltu a Dylanwadu

## Rhwydwaith Iechyd a Lles Sector Wirfoddol CGGC

**Mae'r rhwydwaith yn cynnwys tua 250 o aelodau a sefydliadau ac yn cyfarfod bob chwarter i glywed gan gyd-aelodau, Iechyd ac Awdurdod Lleol ar faterion amserol.**

Ers ymddeoliad Ann Westomoreland, unwyd y rhwydwaith ac mae bellach yn ymgorffori diddordeb o bob rhan o wasanaethau'r Sector Gwirfoddol, gyda'r cyfarfodydd yn cael eu hategu gan e-byst rheolaidd.

Os nad ydych yn aelod eisoes ond yn dymuno clywed mwy, cysylltwch â Geraint Davies ar geraintdavies@cvsc.org.uk

## Car y Llan

**Wrth i ni ddod i fyw gyda Covid, rydym yn brysur yn ceisio recriwtio gwirfoddolwyr i adfer y gwasanaeth tuag at ei weledigaeth wreiddiol o gefnogi cleifion anghysbell a gwledig i allu cael mynediad at apwyntiadau meddygol yn ddiogel ac yn effeithiol.**




### Astudiaeth Achos

Dechreuodd Bethan Trenchard wirfoddoli gyda Car Y Llan ar ddechrau'r cynllun ar ddiwedd 2019. Cafodd Covid effaith fawr ar y cynllun ond ers iddo fod yn weithredol, mae Bethan wedi bod yn gaffaeliad mawr i'r cynllun wrth gyflawni'r presgripsiynau'r feddygfa yn wythnosol ac ym mhob math o dywydd!!

Dywedodd Annie Mills, Rheolwr Prosiect Car y Llan, wrthym: "Mae Bethan yn wirfoddolwr gwych sydd bob amser yn barod i helpu. Mae hi wedi bod yn hanfodol wrth gefnogi'r feddygfa gyda'u danfoniadau dros y flwyddyn ddiwethaf ac mae wedi bod o gymorth mawr iddyn nhw."

# Ymgysylltu a Dylanwadu

## Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol

Gan weithio ochr yn ochr â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ymgysylltu a gynullwyd gan y tîm Trawsnewid, canolbwyntiodd ystod o weithgareddau ymgysylltu â thrigolion lleol ar y grwpiau penodol a ganlyn:

- Gofalwyr
- Unigolion sy'n cael cymorth ar gyfer cyflyrau anadlol
- Perthnasau neu ofalwyr i bobl sydd wedi derbyn gofal diwedd oes
- Oedolion ag anawsterau dysgu
- Pobl sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned
- Pobl hŷn sy'n eiddil

Cynhyrchwyd adroddiad ysgrifennu ymgysylltu â dinasyddion yn 2021 i gofnodi'r holl weithgareddau ymgysylltu â dinasyddion a gynhaliwyd rhwng Mehefin ac Awst 2021 gan Grant Thornton fel rhan o'u gwaith dadansoddi system gyfan ehangach ar gyfer partneriaid iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghonwy a Sir Ddinbych gan gynnwys CGGC.

**Ymgysylltu – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Yn ystod 2021 cawsom ein comisiynu gan Gonwy i wneud gwaith ymgysylltu ar ran eu gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Roedd hyn yn cynnwys holiaduron ar-lein ac ar bapur, cyfweliadau un-i-un a chyfweliadau grŵp wyneb yn wyneb a thros y ffôn neu Zoom/Teams.

Roedd gennym hefyd gwestiynau penodol ar gyfer y rhai oedd wedi cael profiad o wasanaethau gofal cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg.


Cawsom dros 130 o ymatebion lle'r oedd yr unigolyn wedi defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol Conwy yn ystod y flwyddyn – a llawer mwy a ymatebodd gydag adborth am wasanaethau eraill Conwy.

### Astudiaeth Achos

Roedd Ymddiriedolwyr Canolfan Ieuenctid a Chymunedol Llanddulas eisiau ymgysylltu â grwpiau lleol a thrigolion i gasglu gwybodaeth ar sut i ddatblygu'r Ganolfan i'w defnyddio yn y dyfodol, ac i gynorthwyo gyda'r ceisiadau grant. Mynychodd Jeff Warren o'r Ganolfan Gymunedol gwrs hyfforddi CGGC – "Cyflwyniad i Ymgysylltu a Dylanwadu" a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2022 drwy Zoom.

Ar ôl cwblhau'r cwrs, anfonodd Jeff ddrafft o'u holiadur at CGGC i gael ein mewnbwn lle gwnaethom awgrymu rhai gwelliannau i'r cwestiynau a ofynnwyd. Bu CGGC hefyd yn cefnogi Canolfan Ieuenctid a Chymunedol Llanddulas trwy rannu'r holiadur trwy'r cyfryngau cymdeithasol a gyda sefydliadau lleol trwy ein rhestr bostio.

Dywedodd Elgan Owen, Swyddog Cyswllt a hyfforddwr CGGC, "Roedd yn wych gweld Jeff wedi'r hyfforddiant yn gofyn am gymorth ar gyfer dylunio'r holiadur."



**LLANDDULAS YOUTH & COMMUNITY CENTRE - CONSULTATION QUESTIONNAIRE**

This questionnaire will help the Trustees whom run the Youth & Community Centre gather information on how to develop the Centre for the future.

**Do you use Llanddulas Youth & Community Centre?**

- ☐ Yes
- ☐ No

**1) If no, please tick the reasons why you do not use the Youth & Community Centre?**

- ☐ I did not know there was one in my area
- ☐ Don't know what is going on
- ☐ Location of the centre
- ☐ No suitable activities
- ☐ Activities not on at a suitable time
- ☐ Centre does not open at a suitable time
- ☐ Not welcoming
- ☐ Too expensive
- ☐ Poor reputation
- ☐ Facilities in poor condition
- ☐ Other: ________

**2) What services would you like to see available locally?**

- ☐ Activities for children and young people
- ☐ Adult education classes
- ☐ Sports & fitness classes
- ☐ Arts & crafts classes
- ☐ Performing arts activities
- ☐ Activities for older people
- ☐ Activities for both parents and pre school children
- ☐ Crèche to enable you to attend activities
- ☐ Welfare rights and debt advice
- ☐ Help getting back into work
- ☐ Female only activities
- ☐ Male only activities
- ☐ Other ________

**3) What are the three main things that concern you about where you live?**

- ☐ Not enough for children and young people to do
- ☐ Lack of activities for older people
- ☐ Lack of local shop
- ☐ Not enough opportunity for community to get together
- ☐ High unemployment
- ☐ Lack of access to health or fitness activities
- ☐ Not enough opportunities to do training and improve or develop skills
- ☐ Other: ________

**4) What time of the day would you prefer to access services at the Youth & Community Centre?**

- ☐ am
- ☐ pm
- ☐ evening
- ☐ Other: ________

**5) Would you be interested in volunteering at the Youth & Community Centre?**

☐ Yes ☐ No ☐ Maybe

**PLEASE CONTINUE ON THE OTHER SIDE**

# Hwb Cefnogaeth Cymunedol

**Wedi'i lansio ddiwedd 2021, mae Hwb Cefnogaeth Gymunedol Conwy yn bartneriaeth arloesol rhwng CGGC a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ac wedi'i gyllido gan Lywodraeth Cymru.**

Ei brif swyddogaeth yw bod yn siop un stop arbennig i drigolion Conwy o ran cael mynediad at lu o wasanaethau a gynigir i hyrwyddo a chynnal lles pobl. Y cyfan sydd ei angen yw un alwad ffôn i'n rhif penodol a bydd staff cymwys a gwybodus CGGC yn dechrau gweithio ar unwaith, gan ddod o hyd i'r atebion gorau i unrhyw broblemau lles sydd gan bobl.

Mae'r Hwb Cefnogaeth Gymunedol yn agored hefyd i sefydliadau ac asiantaethau eraill sy'n chwilio am yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaethau lles sydd ar gael yn y sir; mae CGGC yma i gefnogi a chryfhau'r sector a chreu cysylltiadau newydd ar draws ein cymunedau.

Mae'r gwasanaeth am ddim ac ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9 tan 5. Beth bynnag yw'r amgylchiadau, mae eich Hwb Cefnogaeth Gymunedol yma ac yn barod i helpu.

## Astudiaeth Achos

Cysylltodd Sam (nid ei enw iawn) â'r Hwb, yn chwilio am fanylion ei fanc bwyd agosaf. Datblygodd y sgwrs a datgelwyd bod Sam yn wynebu llawer o bwysau, gan gynnwys pryderon iechyd meddwl lefel isel, problemau gyda'i fudd-daliadau a'r dyhead i ddod o hyd i swydd. Erbyn diwedd y dydd, roedd Sam wedi derbyn ei barsel bwyd, wedi siarad â sefydliad partner am ei iechyd meddwl a sut i reoli'r cyflwr, wedi bod mewn cysylltiad â phartner dibynadwy arall i Hwb ynghylch ei sefyllfa budd-daliadau, ac wedi cael cynnig dyddiad dros dro i ddechrau cwrs a fydd yn gweld Sam yn dychwelyd i'r gweithle yn y pen draw ar ôl cyfnod estynedig o anweithgarwch economaidd.

Deilliodd hyn i gyd o'r hyn a allai fod wedi bod yn ddim ond galwad 30 eiliad gan rywun yn chwilio am ei fanc bwyd agosaf.



# HWB CEFNOGAETH CYMUNEDOL
Conwy

Siop un stop ar gyfer gwybodaeth, arweiniad a chefnogaeth ymarferol, beth bynnag eich amgylchiadau.

## Ffoniwch ni ar 01492 523853 neu 07429 503303

Gallwch hyd yn oed anfon neges testun neu WhatsApp i'n ffôn symudol os yw'n haws.

CVSC www.cvsc.org.uk | GIG Cymru NHS Wales Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board | Ariennir gan Lywodraeth Cymru Funded by Welsh Government

**Beth bynnag eich amgylchiadau, mae eich HWB CEFNOGAETH CYMUNEDOL lleol yma ac yn barod i helpu.**

P'un a ydych chi'n chwilio am wybodaeth, arweiniad neu gymorth ymarferol, ni yw eich siop un stop i gael gafael ar:

- Becynnau profion llif unffordd
- Darpariaeth bwyd / banciau bwyd / coginio ar gyllideb
- Cymorth llety / tenantiaeth
- Cefnogaeth tanwydd / gwresogi
- Cyngor ar arian / rheoli dyled / budd-daliadau
- Cymorth iechyd meddwl a chorfforol
- Cefnogaeth cam-drin domestig
- Cefnogaeth dibyniaeth a chamddefnyddio sylweddau
- Cefnogaeth i deuluoedd
- Cyfrifiaduron / mynd ar-lein
- Mynediad i gyflogaeth / cynnal cyflogaeth
- Clybiau cymdeithasol / gweithgareddau / gwirfoddoli
- Cyngor cyfreithion (teulu, cyflogaeth a materion sifil)

Ffoniwch **HWB CEFNOGAETH CYMUNEDOL** CGGC ar **01492 523853** neu **07429 503303** i siarad â rhywun yn gwbl gyfrinachol.

# Conwy COMMUNITY SUPPORT HUB

A one-stop-shop to access information, guidance and practical support, whatever your circumstances.

## Call us on 01492 523853 or 07429 503303

You can even send us a text or a WhatsApp to our mobile if you find that easier.

CVSC www.cvsc.org.uk | GIG Cymru NHS Wales Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board | Ariennir gan Lywodraeth Cymru Funded by Welsh Government

**Whatever your circumstances, your local COMMUNITY SUPPORT HUB is here and ready to help.**

Whether you're looking for information, guidance or practical support, we are your one stop shop for access to:

- Lateral flow device testing kits
- Food provision / food banks / cooking on a budget
- Accommodation / tenancy support
- Fuel / heating support
- Money / debt management / benefit advice
- Mental and physical health support
- Domestic abuse support
- Addiction and substance abuse support
- Family support
- Computers / getting online
- Entry to and sustaining employment
- Social clubs / activities / volunteering
- Legal advice (family, employment and civil matters)

Call CVSC's **COMMUNITY SUPPORT HUB** on **01492 523853** or **07429 503303** to speak to somebody in complete confidence.

# Llywodraethu


## Nifer o sefydliadau gwahanol a gefnogwyd – 436

Mae CGGC yma fel pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer unrhyw un sy'n ymwneud â'n cymunedau trydydd sector a llywodraethu da yw sylfaen a blaenoriaeth allweddol ein grwpiau a'n sefydliadau cymunedol.

Mae Tîm CGGC yn cynnig ymagwedd gyfannol, gan ddefnyddio cryfderau a sgiliau eang ein swyddogion - boed hynny'n ymwneud â rhedeg y sefydliad yn gyffredinol, bod yn ffit i gael cyllid neu gynnwys gwirfoddolwyr.

Mae'r galw am gymorth i fentrau datblygu cymunedol, ac yn bwysicach fyth, cydnerthedd cymunedol, wedi bod yn thema nodedig drwy gydol y flwyddyn, wrth inni geisio gwella ar ôl y pandemig, dim ond i gael ei herio drosodd a throsodd gan gyfyngiadau mawr. Roedd y materion llywodraethu amrywiol ynghylch diogelu a chadw pawb yn ddiogel yn flaenllaw ym meddyliau pobl ac fe'u hadlewyrchwyd yn y gwaith a'r cymorth parhaus a gynigiwyd gan CGGC o gymorth un-i-un, rhannu arfer da drwy ein Rhwydweithiau, i hyfforddiant perthnasol a diweddariadau gwybodaeth.

Enghraifft dda o hyn yw ein cefnogaeth barhaus sydd wedi galluogi Youth Shedz i ehangu.





## Astudiaeth Achos

Dechreuodd y prosiect Youth Shedz cyntaf yn Ninbych a'r weledigaeth yw y bydd gan bob tref yng Nghymru eu prosiect eu hunain yn y pen draw.

Ethos Youth Shedz yw cefnogi'r Bobl Ifanc hynny sydd mewn perygl o gael eu gwrthod gan gymdeithas brif ffrwd, neu na allant ymdopi â hi, fel arfer oherwydd profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Mae CGGC wedi darparu cymorth un i un wrth ddatblygu'r pecyn cymorth a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n sicrhau bod y llywodraethu'n cael ei roi ar waith ar lefel strategol i sicrhau bod arferion diogel yn digwydd ar lawr gwlad.

Gan Bencampwr Sied Llysfaen, "Rydyn ni'n gweld ein pobl ifanc yn cymysgu gyda'i gilydd ac mae yna wefr go iawn o'r hyn maen nhw'n ei wneud yn y Sied ac i'r gymuned."



# Cyllid Cynaliadwy

Roedd 2021 - 22 yn flwyddyn brysur iawn i CGGC a'r Tîm Grantiau. Roedd gan y tîm y rhaglenni grantiau mwyaf, a mwyaf deinamig, o blith unrhyw CGS yng Ngogledd Cymru (ar hyn o bryd).

Yn 2021 lansiodd Cronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog gynllun grant cyntaf RWE UK yn benodol ar gyfer busnesau, a chafodd 13 o fusnesau eu cyllido i gyfanswm o £178,621.87.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, rheolodd CGGC 9 cynllun grant gwahanol gan gynnwys VSEF WCVA (Cronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol), Grantiau Dan Arweiniad Ieuenctid WCVA, Cronfa Pwysau'r Gaeaf WCVA, Cronfa Gofal Integredig CBSC, Cronfa Partneriaeth Rheilffordd Gymunedol Dyffryn Conwy a Gogledd Orllewin Cymru, Cronfa Iechyd Meddwl ac Anawsterau Dysgu BIPBC, Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Gwastadeddau'r Rhyl, Cronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog a Chronfa Gymunedol Gwynt y Môr.

**Ar gyfer blwyddyn ariannol 2021 – 22 fe wnaeth y Tîm Grantiau brosesu a buddsoddi mwy na £1.5 miliwn yn ein cymunedau. Roedd hyn yn trosi fel a ganlyn:**

**Cyfanswm y grantiau a dalwyd 21-22**

| | |
|---|---|
| Gwynt y Môr | £626,333.39 |
| Gwastadeddau'r Rhyl | £65,009.34 |
| Clocaenog | £742,535.47 |
| ICF | £59,303.70 |
| MHLD | £88,889.00 |
| Grantiau Rheilffordd | £9,246.56 |
| Grantiau Dan Arweiniad Ieuenctid | £6,337.60 |
| Pwysau'r Gaeaf WCVA | £40,000.00 |
| VSEF | £28,991.05 |
| **Cyfanswm** | **£1,666,646.11** |

Yn ogystal, rhoddwyd cyfanswm o £465,127.00 i sefydliadau drwy gefnogaeth CGGC.

At hynny, derbyniodd 156 o grwpiau cymunedol a busnesau arian hanfodol a chynhaliwyd 11 Cymhorthfa Ariannu lwyddiannus.

## Astudiaeth Achos

Nod prosiect Conwy Connect/Academi Frenhinol Gymreig oedd gwneud celf yn hygyrch i aelodau o'n cymuned nad ydynt fel arfer yn teimlo y gallent ymweld â'r oriel. Roedd gan bob un o'r cyfranogwyr anghenion corfforol gwahanol iawn. Roedd yn hanfodol bod gweithgareddau'n cael eu creu er mwyn i'r holl gyfranogwyr allu cymryd rhan lawn a mwynhau gartref.



# Gwirfoddoli

**Cofrestrodd 78 o wirfoddolwyr ar wefan Gwirfoddoli Cymru www.volunteering-wales.net**

**Cefnogwyd 184 o wirfoddolwyr gyda'u taith wirfoddoli**

Mae Tîm Gwirfoddoli CGGC yn rhoi arweiniad ar bob agwedd ar wirfoddoli ar gyfer gwirfoddolwyr unigol a sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr. Rydym yn gweithredu fel brocer i baru sgiliau a brwdfrydedd unigolion â chyfleoedd o safon i gefnogi sefydliadau a arweinir gan wirfoddolwyr.

Parhaodd 2021/22 i fod yn flwyddyn anodd wrth i gyfleoedd gwirfoddoli traddodiadol wyneb yn wyneb a mwy cymdeithasol barhau i fod yn llai neu ar-lein o hyd.

Fodd bynnag, gwnaethom bob ymdrech i ffrwyno'r ymchwydd aruthrol o weithgarwch o gyfnod cynnar y pandemig, gan ymdrechu i gadw pawb yn ddiogel. Roedd ein digwyddiadau Rhwydwaith Trefnwyr Gwirfoddolwyr rheolaidd yn llwyfan gwerthfawr i rannu arfer da ac roedd angen mawr am ddathliadau wythnos y Gwirfoddolwyr i gydnabod gwerth parhaus, dewrder a chyfraniad ein gwirfoddolwyr cymunedol gwych.

## Astudiaeth Achos

### Charlie Cottington


Mae Charlie yn ddisgybl ysgol gynradd sy'n gwirfoddoli ei amser i helpu i ofalu am anifeiliaid a gwarchod yr amgylchedd. Mae'n 10 oed ac yn Sgowt gyda chriw y Gogarth. Ond mae ei holl weithgareddau gwirfoddoli y tu allan i'w ymrwymiadau ysgol a'i ymrwymiadau gyda'r Sgowtiaid.

Fe wnaeth ymdrechion Charlie gymaint o argraff ar arweinydd y Sgowtiaid, Ray Barnett fel ei fod eisiau gwneud rhywbeth arbennig i gydnabod y bachgen ifanc ysbrydoledig yma yn ystod Seremoni Wobrwyo Flynyddol y Sgowtiaid, felly paratôdd Kasia Kwicien, Cydlynydd Gwirfoddolwyr CGGC, Dystysgrif Rhagoriaeth arbennig a mynychodd y Seremoni i'w chyflwyno i Charlie.


Anfonodd Syr David Attenborough, arwr mwyaf Charlie, lythyr llongyfarch personol ato a rhoddodd Iolo Williams dystysgrif i'r bachgen ifanc sy'n frwd dros fywyd gwyllt. Cyflwynwyd rhain gan Faer Tref Llandudno, gan wneud i Charlie deimlo'n arbennig iawn, ac roedd wrth ei fodd! Ni adawodd y wên ei wyneb am y noson gyfan.



# Crynodeb Ariannol CGGC 2021 / 2022




| INCWM | £ | % |
|---|---|---|
| Cyllid Craidd WCVA | 164,302.00 | 6.39% |
| Awdurdod Lleol | 167,644.00 | 6.52% |
| Llyw Cymru - Prosiectau | 244,078.66 | 9.49% |
| Loteri | 24,750.00 | 0.96% |
| BIPBC | 257,928.83 | 10.03% |
| Arall | 1,713,712.51 | 66.62% |
| **Cyfanswm** | **2,572,416.00** | **100.00%** |




| GWARIANT | £ | % |
|---|---|---|
| Costau Cysylltiedig â Staff | 579,935.16 | 23.88% |
| Eiddo | 5,855.35 | 0.24% |
| Grantiau | 1,745,150.32 | 71.85% |
| Swyddfa a Chostau TG | 35,427.37 | 1.46% |
| Offer | 56,031.56 | 2.31% |
| Yswiriant, Archwilio a Chyfrifeg | 6,477.60 | 0.27% |
| **Cyfanswm** | **2,428,877.36** | **100.00%** |